ARFOR CREU GWAITH – CEFNOGI'R IAITH

# RHAGLEN ARFOR –

# Cytundeb Egwyddorion Rhaglen ARFOR

Fel rhan o Raglen ARFOR rydym wedi creu Cytundeb Egwyddorion sydd yn amlinellu'r hyn y dymunwn i fudiadau/busnesau/mentrau/unigolion i ymrwymo iddyn nhw yn gyfnewid am gefnogaeth.

Mae hyn yn cynnwys:

- Llwyddo'n Lleol
- Cymunedau Mentrus
- Cronfa Her
- Hunaniaeth

Nod ARFOR yw sicrhau ffyniant economaidd fydd hefyd yn cefnogi cynaladwyedd cymunedau a ffyniant yr iaith Gymraeg fel iaith bob dydd.

Mae arwyddo'r Cytundeb Egwyddorion yn ymrwymo i gydnabod a gweithio i ymateb i Amcanion Strategol ARFOR:

1. **Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid** - gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
2. **Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg** - drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
3. **Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio** - drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd o fewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn a'u teilwra i amgylchiadau lleol.
4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** - drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

Rhaglen economaidd yw ARFOR, gyda'r nod o greu sylfaen economaidd gadarn i sicrhau cynaladwyedd hirdymor ein cymunedau a ffyniant yr iaith Gymraeg.

Mae'r Amcanion uchod yn cyd-fynd â strategaethau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn benodol:

- Rhaglen Lywodraethu 2021-26,
- Cenhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr

Yr Egwyddorion

1. Mae'n ofynnol i unrhyw sy'n derbyn cymorth ymrwymo i adolygu a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. (Gellir cysylltu gyda gwasanaeth Helo Blod i gael cyngor rhad ac am ddim ar sut gellir defnyddio mwy o Gymraeg o fewn eich sefydliad.)

2. Disgwylir i sefydliadau sy'n derbyn cymorth gefnogi eu staff / cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â hyrwyddo ac annog eu staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy fynychu cyrsiau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

3. Disgwylir i unrhyw un sy'n derbyn cefnogaeth i gynnal asesiad iaith mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg ag i weithio tuag at achrediad y Cynnig Cymraeg o fewn amserlen Rhaglen ARFOR.

4. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n derbyn cymorth ymrwymo i gynnig cyfraddau cyflog byw y Living Wage Foundation. Gweler mwy o wybodaeth am egwyddorion Busnes Cyfrifol.

5. Disgwylir bod unrhyw un sy'n derbyn cefnogaeth yn ystyried llofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd.

6. Disgwylir bod unrhyw un sy'n derbyn cefnogaeth yn ystyried llofnodi'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

7. Disgwylir bod unrhyw un sy'n derbyn cefnogaeth yn ystyried llofnodi'r **Addewid Cydraddoldeb | Busnes Cymru (gov.wales)**

| | |
|---|---|
| Enw'r Sefydliad: | |
| Enw Person Cyfrifol: | |
| Arwyddwyd: | |
| Dyddiad: | |